# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Craffu Lle**
**Neuadd y Sir Brynbuga NP15 1GA**
**Dydd Iau, 27ain Mawrth, 2025. 2.00 pm**

| **Cynghorwyr yn Bresennol** | **Swyddogion yn Bresennol** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Jane Lucas (Chair)<br><br>Cynghorydd Sir: Louise Brown, Emma Bryn, Tomos Davies, Lisa Dymock, Jackie Strong, Laura Wright, Tudor Thomas, John Crook, Malcolm Lane, M. Newell | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio<br>Ross Price, Project Engineer (Flood Risk Management)<br>Kate Stinchcombe, Nature Recovery and Land Use Manager<br>Sali Palmer, Biodiversity & Ecology Officer |

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

   Cytunwyd ar y cofnodion.

3. **Blaenraglen Gwaith a Rhestr Gweithredu y Pwyllgor Craffu Lle.**

   Atgoffwyd aelodau am ymweliadau Dŵr Cymru yn Nhrefynwy a Phwllmeurig ar 24 Ebrill. Gofynnwyd i aelodau roi manylion cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr anabledd ac i'r cyhoedd gysylltu, cyn yr eitem Teithio Llesol yn y cyfarfod nesaf.

4. **Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.**

5. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Darllenodd y Cynghorydd Strong gyflwyniad ar ran preswylydd yn ymwneud ag Afon Nedern, Eitem 8. Nododd y preswylydd nad oedd problem gyda'r Nedern tan ganol y 1990au pan ddechreuwyd ar y gwaith o adeiladu ail Bont Hafren. Mae'r afon yn rhedeg drwy'r twnnel dan Draffordd yr M4, a gaiff ei ddiogelu gan sgrîn. Mae'r sgrîn yn aml yn tagu gydag ysgyrion, gan achosi llifogydd yn yr afon. Yn y 1980au arferai'r afon gael eu charthu i gael gwared â chwyn a llaid ond nawr dim ond chwyn gaiff eu tynnu, sy'n arwain at broblemau ychwanegol. Mae'r afon yn rhedeg wrth ochr hen safle Tŷ Pill, sy'n awr yn safle busnes ailgylchu concrit. Mae'r busnes yn cadw llawer o agregau ger yr afon, sy'n achosi risg tywallt heb ddull cywir i'w dynnu. Gallai llifogydd yn y gaeaf ar y Nedern achosi mynediad i'r llwybr cerdded o Gastell Cil-y-coed i'r prosiect Cae Ŷd. Adeiladwyd sianel draeniad newydd i dynnu dŵr o'r cynlluniau i adeiladu tai yn yr ardal. Fodd bynnag, gyda lefelau uchel yr afon, mae bellach lifogydd mewn ardaloedd a arferai fod yn sych. Gellid datrys y broblem drwy osod fflap dim-dychwelyd ar ben afon y sianel draeniad. Croesewir y cynnig i adeiladu tua 100 o gartrefi ond mae'n bwysig y bydd hyn ystyried y bydd hyn yn arwain at i fwy o ddŵr ddraenio i'r afon. I fynd i'r afael â'r problemau hyn, awgrymodd y preswylwyr ailddylunio neu addasu sgriniau twnnel yr M4 i'w gwneud yn fwy

effeithiol, i weithredu system rhybudd cynnar ar gyfer lefelau uchel yn yr afon ac i sefydlu gwell rhaglen cynnal a chadw afon.

Rhoddodd preswylydd gyflwyniad yn amlinellu pryderon am ddiogelu ystlumod, yn ymwneud ag Eitem 9. Codwyd pryderon fod Cyngor Sir Fynwy yn dileu mesurau diogelu allweddol ar gyfer ystlumod, a holwyd am y rhesymau am hynny. Tanlinellwyd pwysigrwydd mesurau diogelu trylwyr ar gyfer datblygiadau ym mharhau cynhaliaeth craidd ystlumod, fel yr argymhellwyd gan ymgynghorwyr amgylcheddol. Pwysleisiwyd yr angen am arolygon penodol ar ystlumod a mesurau lliniaru i ddiogelu poblogaethau ystlumod a beirniadwyd y cyngor am roi geiriad amwys ym mholisi NR1 yn lle gofynion penodol yr arolwg. Rhoddwyd gwybodaeth ar yr ystlum pedol mwyaf, ei ofynion cynefin a'i statws dan fygythiad a thrafodwyd effaith datblygiadau arfaethedig ar gynefinoedd ystlumod, yn arbennig safle Nant Lease ger Cwrt Newton. Awgrymwyd fod y cyngor yn dileu'r lleihau mewn mesurau diogelu ar gyfer ystlumod ac ychwanegu geiriad penodol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar ystlumod o ddatblygiadau. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd diogelu parthau cynhaliaeth creiddiol ystlumod a sicrhau fod mesurau yn eu lle ar gyfer arolwg llawn a lliniaru.

Rhoddodd Andy Karraen, Rheolwr Tystiolaeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, sylwadau ar Eitem 9, yn benodol ar safle HA4 yn Nhrefynwy. Mynegwyd pryderon am yr effaith ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig a phoblogaeth ystlumod pedol mwyaf. Nododd Andy na chaiff y parth cynhaliaeth iau 1 cilometr ei ddefnyddio fel arfer yng Nghymru a chyfeiriodd at ei ddefnydd yng nghanllawiau Ardal Cadwraeth Arbennig Gogledd Gwlad yr Haf a'r Mendips. Tanlinellwyd yr angen fwy o waith arolwg i benderfynu ar yr effaith ar yr ystlumod, gan awgrymu y dylai arolygon gael eu cynnal gan unigolion cymwys ar yr amserau priodol gydag ymdrech ddigonol.

6. **<u>Cynnal Cyfarfod Nedern – Trafod cynnal a chadw y Nedern, yn arbennig drwy dir Castell Cil-y-coed.</u>**

Atebodd James Galsworthy (Cyfoeth Naturiol Cymru) gwestiynau aelodau gyda Ross Price.

- A fedrwch roi diweddariad ar raglen cynnal a chadw Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y Nedern a'i is-afonydd?

*Mae'r rhaglen cynnal a chadw ar gyfer yr Afon Nedern yn cynnwys torri glaswellt yn flynyddol tua mis Medi-Hydref a symud tyfiant yn y sianel tua mis Rhagfyr-Ionawr. Caiff y gwaith ei wneud gan gontractwyr ac arferid ei wneud bob yn ail flwyddyn ond caiff bellach ei wneud yn flynyddol.*

- Beth yn union yw rôl a chyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru pan ddaw i ddiogelu iechyd afon ac atal llygredd?

*Nid yw'r cyfrifoldeb am iechyd afon ac atal llygredd o fewn cylch gorchwyl y siaradwr o Cyfoeth Naturiol Cymru a dylai cwestiynau o'r fath gael eu cyfeirio at eu tîm ymholiadau, gan mai perchennog y tir sydd yn gyfrifol yn y pen draw am iechyd afon.*

- Cyfrifoldeb pwy yw cynnal y tir cyhoeddus lle mae'r Nedern yn rhedeg drwy Fagwyr?

*Perchennog y tir sy'n gyfrifol am gynnal a chadw cyrsiau dŵr. Ar gyfer tir cyhoeddus, byddai'n gyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol, tebyg i Gyngor Sir Fynwy.*

- A fedrwn drefnu cyfarfod ar wahân i sefydlu cyfrifoldebau am faterion cynnal a chadw a llifogydd y Nedern?

*Cytunodd James i fynychu cyfarfod ar wahân i drafod y materion hyn ac awgrymwyd y dylai David Penny o'r tîm ardal draeniad mewnol hefyd gymryd rhan .*

- Pa mor effeithlon yw'r rhaglen cynnal a chadw gyfredol wrth atal mwy o lifogydd?

*Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod effaith sylweddol llifogydd ar fusnesau lleol. Mae'r rhaglen cynnal a chadw bresennol yn cynnwys torri glaswellt a symud tyfiant yn yr afon bob blwyddyn, a chynyddwyd hyn o'i wneud bob yn ail flwyddyn i'w wneud bob blwyddyn. Mae hyn wedi gwella'r effeithlonrwydd wrth atal llifogydd.*

- Beth yw risgiau'r lefel bresennol o gynnal a chadw?

*Mae risgiau y lefel bresennol o gynnal a chadw yn cynnwys posibilrwydd llifogydd os nad yw'r cynnal a chadw yn ddigonol i reoli risgiau llifogydd sylweddol, yn arbennig mewn ardaloedd gyda nifer cyfyngedig o eiddo.*

- Pa mor effeithlon yw'r berthynas rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Fynwy ac English Highway wrth reoli risgiau llifogydd?

*Mae perthynas effeithlon rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Fynwy ac English Highway yn hollbwysig ar gyfer rheoli risg llifogydd, yn arbennig ynghylch asedau fel y glwyd sbwriel. Mae angen cydlynu a chyfathrebu ymysg y cyrff hyn i drin risgiau llifogydd yn effeithiol.*

- Pa gyfrifoldeb sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru am gynnal a chadw afonydd ar dir y mae Cyngor Sir Fynwy neu berchnogion tir preifat yn berchen arno?

*Perchennog y tir sy'n gyfrifol am gynnal a chadw yr afonydd, ond mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i ganiatáu i wneud y gwaith lle mae risg sylweddol o lifogydd. Mae hyn yn weithredol ar gyfer tir y mae'r cyngor yn berchen arno a hefyd dir preifat.*

- Sut y caiff y Nedern ei rheoli drwy'r Parc Gwledig?

*Byddai unrhyw waith ym mhrif gwrs dŵr yr afon, yn cynnwys y Nedern drwy'r Parc Gwledig, angen caniatâd gweithgaredd risg llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae angen cydlynu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i benderfynu'r gofynion ar gyfer gwaith o'r fath. Highways England yw perchennog y glwyd sbwriel, a'u cyfrifoldeb nhw yw gwaith unioni.*

- Beth yw'r berthynas rhwng iechyd afon a llifogydd, yn arbennig yng nghyswllt gollwng carthffosiaeth?

*Mae perthynas rhwng iechyd afon a llifogydd oherwydd gall gollwng carthffosiaeth yn ystod llifogydd effeithio ar breswylwyr a hefyd fusnesau. Mae pryderon iechyd a diogelwch yn codi pan mae dŵr wedi ei lygru yn effeithio ar yr ardaloedd hyn. Bu cyfarfod safle blaenorol gyda Dŵr Cymru i drafod systemau carthffosiaeth mewn ardaloedd lleol.*

- A yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro llygredd yn y Nant Fynydd, sy'n cysylltu gyda'r Nedern?

*Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru yr adnoddau i fonitro llygredd yn y Nant Fynydd sy'n cysylltu gyda'r Nedern. Dylid cyfeirio pryderon am lygredd at dîm rheoli amgylchedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am ostwng llygredd o'u hasedau a gall Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu yn erbyn sefydliadau sy'n llygru.*

Rhoddodd Ross Price, Peiriannydd Prosiect Cyngor Sir Fynwy, sylwadau ar gwestiwn yr aelod o safbwynt Cyngor Sir Fynwy:

- Esboniodd fod adroddiad llifogydd Adran 19, a luniwyd ar ôl llifogydd Chwefror 2020, wedi dynodi dulliau llifogydd a'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwahanol awdurdodau rheoli risg, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, National Highways a Chyngor Sir Fynwy. Nododd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn awr yn gwneud gwaith cynnal a chadw blynyddol, yn cynnwys clirio tyfiant a gafodd ei dorri o'r glannau i atal blociad yn nes lawr yr afon. Mae National Highways wedi gwella eu harferion cynnal a chadw ar gyfer ffos yr M4 a'r sgrin sbwriel, yn cynnwys archwiliadau wythnosol ac archwiliadau yn ystod digwyddiadau tywydd sylweddol. Mae ganddynt hefyd offer codi â llaw os yw'r system hydrolig yn methu.

- Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ffurfioli ei strategaeth cynnal a chadw ar gyfer adran Parc Gwledig y Nedern, sydd yng nghamau olaf ymgynghoriad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y strategaeth yn egluro pwy sy'n gwneud beth a phryd. Tanlinellodd Ross bwysigrwydd y berthynas rhwng awdurdodau rheoli risg, gan nodi fod Cyngor Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a National Highways i drin problemau llifogydd. Dywedodd fod tir y Castell a'r parc diwydiannol yn rhan o orlifdir y Nedern ac y disgwylir llifogydd bob blwyddyn. Dim ond un eiddo yn Castle Lodge Crescent gafodd lifogydd uniongyrchol o ddŵr yn mynd dros y glannau yn ystod Storm Dennis, tra bod systemau dŵr wyneb Dŵr Cymru yn gorlenwi wedi effeithio ar eiddo eraill.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Cydnabu Aelodau effaith llifogydd sylweddol ar fusnesau ac eiddo, yn arbennig yn ystod Storm Dennis. Tanlinellwyd pwysigrwydd gwaith cynnal a chadw a chydlynu ymysg gwahanol awdurdodau. Soniodd swyddogion am welliannau mewn arferion cynnal a chadw, tebyg i glirio tyfiant yn flynyddol ac archwiliadau rhagweithiol o ffos a sgrin sbwriel yr M4 a chydnabod yr angen am strategaeth cynnal a chadw ffurfiol i egluro cyfrifoldeb a gwella rheoli risg llifogydd. Mae aelodau'n gwerthfawrogi ymdrechion Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Fynwy wrth fynd i'r afael â risgiau llifogydd a chynnal a chadw y Nedern, gan nodi'r angen parhaus i fod yn wyliadwrus a chydweithio.

Diolchodd y Cadeirydd ar ran y pwyllgor am bresenoldeb Mr Goldsworthy heddiw. Caiff cwestiynau pellach aelodau eu hanfon at Cyfoeth Naturiol Cymru am ymateb ysgrifenedig ffurfiol – **CAM GWEITHREDU.**

7. **Gwerthuso Rheoliadau Ystlumod a Chynefinoedd – Trafod Gwerthusiadau Rheoliadau Cynefinoedd ystlumod pedol a chysylltiedig, yn arbennig yng nghyswllt cynigion am dai newydd.**

Rhoddodd Craig O'Connor sylwadau cyflwyno, pan danlinellwyd ymroddiad Cyngor Sir Fynwy i'r argyfwng hinsawdd a natur a sicrhau fod cynigion datblygu yn gynaliadwy a chytbwys. Eglurodd nad yw Cyngor Sir Fynwy yn dileu mesurau diogelu ar gyfer ystlumod a'i fod yn anelu i ddiogelu a chyfoethogi buddiannau ecolegol a bywyd gwyllt. Esboniodd Craig mai nod dull y cyngor o eirio polisi yw osgoi bod yn rhy rhagnodol, gan roi hyblygrwydd i ofyn am arolygon ystlumod ac asesiadau ecolegol ar gyfer pob math o ddatblygiad ac ardal, nid dim ond o fewn parthau cynhaliaeth creiddiol. Sicrhaodd aelodau y cynhelir proses ymgynghori fanwl ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru am fethodoleg asesu rheoliadau cynefinoedd. Soniodd Craig y caiff y cynllun ei adolygu gan arolygydd cynllunio annibynnol fydd yn archwilio'r asesiad rheoliadau cynefin a gwneud penderfyniad gwybodus os yw'r datblygiad yn dderbyniol ai peidio.

Rhoddodd Kate Stinchcombe gyflwyniad yn amlinellu ymatebion Cyngor Sir Fynwy i'r pryderon a godwyd. Cafodd cwestiynau aelodau eu hateb gan Craig O'Connor a Kate Stinchcombe:

- Gofynnodd aelod i Andy Karran o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent os ydynt yn credu fod y diogeliad ar gyfer ystlumod pedol wedi ei leihau.

*Dywedodd Mr Karran ne chredai y bu unrhyw leihau yn y mesurau diogelu ar gyfer ystlumod pedol. Esboniodd y gwnaed y newidiadau mewn geiriad i sicrhau y caiff yr effeithiau ar ystlumod ei asesu ym mhob rhan o Sir Fynwy mewn gwahanol amgylchiadau. Mynegodd bryderon am arwyddocâd yr ardal ddatblygu arfaethedig o fewn y parth cynhaliaeth creiddiol, gan nodi y gall ardaloedd sy'n agos at fan clwydo mamolaeth fod yn fwy gwerthfawr. Tanlinellodd yr angen i edrych os yw'r ardal ddatblygu arfaethedig yn dal i fod yn arwyddocaol er mai canran fach o'r ardal cynhaliaeth yw hi.*

- Mynegodd aelod bryder fod tynnu manylion penodol am barthau cynhaliaeth creiddiol ar gyfer ystlumod pedol mwy ac ystlumod pedol llai gan sôn yn benodol am safle yn Drenewydd Gellifarch. Gofynnwyd os y cynhelir arolygon ar gyfer safleoedd eraill yn y parthau hyn.

*Eglurwyd fod safle Redlands yn Drenewydd Gellifarch o fewn parth dau cilometr o safle gaeafgwsg, sydd angen gwahanol ystyriaethau arolwg i safleoedd mamolaeth. Esboniwyd mai gwerth ecolegol isel sydd gan safle Redlands, gyda gwrychoedd a gaiff eu rheoli'n agos, a soniodd am bwysigrwydd asesiad achos-wrth-achos. Tanlinellwyd yr angen am hyblygrwydd yng ngofynion yr arolwg i fynd i'r afael ag amodau penodol i'r safle. Sicrhawyd aelodau y caiff mannau clwydo gaeafgwsg eu hystyried yn yr atodiad i'r asesiad rheoliadau cynefinoedd.*

- Dywedodd yr aelod fod tynnu manylion penodol am arolygon ystlumod a lliniaru'r polisi yn ei wanhau. Awgrymwyd y dylai polisïau lleol atgyfnerthu polisïau cenedlaethol i danlinellu pwysigrwydd lleol

*Esboniwyd fod yn rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fod yn gydnaws ag arweiniad Llywodraeth Cymru, sy'n golygu fod angen osgoi dyblygu polisïau cenedlaethol. Maent yn cydnabod yr her ond pwysleisiwyd fod y Cynllun hwn y rhan o fframwaith polisi cynllunio ehangach, yn cynnwys polisïau cenedlaethol a rhanbarthol. Rhoddwyd sicrwydd y caiff pob ymateb i'r ymgynghoriad eu hadolygu ac y gellir gwneud gwelliannau i gryfhau polisïau lle mae angen.*

- Nododd wanhau cyffredinol yng ngeiriad a mesurau diogelwch yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd arfaethedig o'i gymharu â'r cynllun datblygu lleol cyfredol, gan awgrymu fod blaenoriaethau diogelu yn drech na mesurau diogelu.

*Dywedodd y swyddog fod faint o wybodaeth a gasglwyd ar gyfer safle Trefynwy yw'r lefel uchaf o wybodaeth a welodd erioed ar gyfer safle datblygu, sy'n briodol oherwydd ei agosatrwydd at yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Dywedwyd mai nod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw gwella polisïau tu hwnt i'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a fabwysiadwyd, gan gynnwys safonau newydd ar gyfer gofynion sero net ac ynni adnewyddadwy, a fydd yn rhoi'r dulliau i'r pwyllgor cynllunio orfodi safonau uwch ar gynigion datblygu. Os aiff amser sylweddol cyn y symudir ymlaen â'r datblygiad, byddai angen diweddaru arolygon.*

- Gofynnodd aelod am eglurhad ar pwy oedd yn ymwneud â chymeradwyo'r broses ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut yr oedd gwahanol safbwyntiau o fewn y tîm ecoleg yn cael eu hystyried yn y canlyniad terfynol.

*Esboniwyd fod Cyngor Sir Fynwy wedi rhoi contract i Aecom i gynnal yr Asesiad Rheoliadau Cynefinodd. Roedd y broses yn cynnwys trafodaethau rhwng Aecom a thîm mewnol ecoleg y cyngor. Teimlai'r cyngor fod geiriad polisi Aecom yn rhy rhagnodol a bod angen hyblygrwydd i ofyn am arolygon ecolegol y tu allan i'r parth tair cilometr. Cafodd yr Asesiad ei gymeradwyo gan swyddogion a chaiff ei adolygu gan arolygydd cynllunio annibynnol pan gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.*

- A yw'r mesurau a gymerir yn ddigonol i ddiogelu ystlumod ac a oes angen mwy o waith arolwg? Mae pryderon am effaith adeiladu tai ar gynefinoedd ystlumod, yn cynnwys sŵn, golau a tharfu.

*Er y bydd gan unrhyw ddatblygiad beth effaith, esboniodd y swyddog mai'r nod yw rheoli a lliniaru'r effeithiau hyn. Mae lefel bresennol gwybodaeth ar gyfer safle Trefynwy yn helaeth ac mae'n cynnwys mesurau fel coridorau tywyll i leihau llygredd golau. Nodwyd fod egwyddor datblygu wedi ei selio ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ac y byddid angen mwy o arolygon pe byddai llawer o amser yn mynd heibio cyn i'r datblygiad ddechrau. Nod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw cydbwyso anghenion tai gyda mesurau diogelu ecolegol, gan sicrhau datblygu cynaliadwy. Soniwyd fod y cynllun yn cynnwys arolygon ecolegol sylweddol ar gyfer pob safle a bod y broses yn cynnwys asesiad ac adolygiad trwyadl gan arolygydd cynllunio annibynnol. Soniwyd am bwysigrwydd darparu tai a chyfleoedd economaidd tra'n cynnal buddiannau ecolegol.*

- Gofynnodd yr aelod ymhellach os na fyddai unrhyw niwed i ystlumod o adeiladu.

*Dywedodd y swyddogion y bydd yn niweidiol, ond mai'r ystyriaeth allweddol yw os yw'r niwed hwnnw yn andwyol. Esboniwyd fod y mesurau arfaethedig, megis y polisi awyr dywyll a phlannu clustog coetir, yn anelu lliniaru'r effaith ar ystlumod. Diben yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw gwneud penderfyniad gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth. Pwysleisiwyd fod yr asesiad yn awgrymu na fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gadwraeth y rhywogaeth ac y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r arolygydd cynllunio yn adolygu hyn.*

- Gofynnodd aelod os cynhaliwyd astudiaeth ar faint effeithiau negyddol ar ddatblygiad dynol tu hwnt i ffiniau datblygu, yn cynnwys sŵn, sbwriel a niwed a achosir gan anifeiliaid anwes. Gofynnwyd beth fedrir ei wneud ar gam y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i liniaru'r risgiau hyn, yn arbennig ar gyfer safleoedd sensitif.

*Esboniodd y swyddog fod llawer o astudiaethau yn dangos effeithiau datblygu, yn cynnwys sŵn, sbwriel a hela gan anifeiliaid anwes. Soniwyd fod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys mesurau fel seilwaith gwyrdd, gerddi glaw gyda phlannu bioamrywiaeth a phlannu drain i ddiogelu rhywogaethau fel pathewod rhag cathod. Tanlinellwyd bwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng anghenion datblygu â diogelu ecolegol a rheoli effeithiau hirdymor drwy ddylunio a mesurau polisi.*

- Mynegodd aelod sicrwydd gyda'r mesurau lliniaru a gynigiwyd gan swyddogion i ddiogelu cynefinoedd ystlumod tra'n cydbwyso'r angen am ddatblygiad tai. Tanlinellwyd bwysigrwydd darparu tai ar gyfer pobl yn Sir Fynwy, gan nodi'r heriau sy'n wynebu'r rhai mewn llety dros dro neu sy'n ddigartref. Cydnabuwyd anhawster rhagweld union effaith datblygiad ond teimlai'n ddigon hyderus yn y mesurau a amlinellwyd i leihau niwed posibl. Tanlinellwyd prinder safleoedd tir llwyd yn Sir Fynwy sy'n golygu fod angen datblygu safleoedd tir glas, a phwysleisiwyd yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng cadwraeth anghenion tai.

- Gofynnodd aelod os y bydd y pum dyraniad cynllun lleol a ddynodwyd ar gyfer safleoedd ystlumod yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gael i'r cyhoedd. Gofynnwyd am fwy

o wybodaeth ar yr arolygon a gynhaliwyd ar gyfer y safleoedd hyn, gan y rhoddwyd gwybodaeth fanwl ar gyfer safle Trefynwy ond dim ar gyfer y pedwar safle arall.

*Esboniodd y swyddog nad oes data olrhain radio ar gyfer y safleoedd ymgeisiol eraill a bod lefel yr wybodaeth yn wahanol. Dywedwyd y bydd yr atodiad gan Aecom yn rhoi asesiad ansoddol a meintiol o bob safle o fewn y parthau cynhaliaeth creiddiol ond nad oes unrhyw fapiau cysylltiedig ar gael. Nodwyd y defnyddir arolygon y gorffennol ar gyfer asesiadau safle ac y gofynnwyd am arolygon gweithgaredd ystlumod ar gyfer safle Redlands i lywio datblygiad. Os cyflwynir cais cynllunio, ychwanegwyd y gofynnir am ddiweddaru arolygon ecoleg i sicrhau fod symudiadau ecolegol a thurio yn dylanwadu ar ddyluniad y safle. Tanlinellodd swyddogion fod y broses yn un strategol ar y cam hwn ond y bydd angen arolygon manwl gyda threigl blynyddoedd.*

- Tanlinellodd aelodau y caiff pwysigrwydd darparu llety ar gyfer rhai mewn angen ei ddeall yn dda ond mae'r un mor bwysig cael proses drylwyr cyn y caiff unrhyw beth ei adeiladu gan y bydd yn rhy hwyr erbyn hynny. Mae angen i aelodau sicrhau fod yr hyn a gyflwynir yn galluogi'r safleoedd cywir i symud ymlaen.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a'u cyfraniadau, gan danlinellu pwysigrwydd sgyrsiau a chwestiynau sy'n herio. Cydnabuwyd fod teimladau cryf am yr angen am dai a diogelu cynefinoedd. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r trafodaethau am effaith datblygu ar gynefinoedd ystlumod, yn cynnwys pryderon am leihau mesurau i ddiogelu ystlumod, yr angen am arolygon mwy manwl ac effaith datblygiad dynol ar gynefinoedd ystlumod. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau datblygu cynaliadwy a'r angen am asesiadau trwyadl.

**8. <u>Cyfarfod nesaf: Dydd Iau 22 Mai 2025 am 2.00pm.</u>**

Dydd Iau 22 Mai 2025 am 2.00pm.